

JOANNA

Darllen Luc 24:1–12

Ar y dydd cyntaf o'r wythnos, ar doriad gwawr, daethant at y bedd gan ddwyn y peraroglau yr oeddent wedi eu paratoi. Cawsant y maen wedi ei dreiglo i ffwrdd oddi wrth y bedd... (Luc 24:1–2).

Roedd rhywbeth yn y gwynt y bore hwnnw,
rhywbeth arbennig,
anghyffredin,
bron yn arallfydol.
Ni allem roi ein bys ar y peth,
ond er ein bod yn ddigalon,
a'n llygaid wedi eu dallu gan ddagrau,
roedd ynom ryw ymdeimlad rhyfedd
fod y diwrnod hwn am fod yn wahanol i bob diwrnod arall:
diwrnod bythgofiadwy.

Roeddem yn credu ar y dechrau mai galar oedd achos y cyfan,
oherwydd cofiwch mai mynd i eneinio corff ein Harglwydd yr oeddem – i dalu'r gymwynas olaf
a dweud ffarwel wrth ein breuddwydion.
Ond, er mai cyfnod o ddiweddiadau ydoedd,
yr oedd awgrym cryf
o ddechrau newydd,
addewid,
gobaith am y dyfodol.

Ai seiniau a golygfeydd y wawr ydoedd:
sŵn adar yn cyfarch diwrnod newydd,
ffresni'r gwllith ar lawr,
bywyd yn cyniwair eto?

Mae rhai'n dweud hynny,
hyd yn oed nawr,
er gwaethaf popeth –
er gwaetha'r maen a dreiglwyd,
y dillad a blethwyd,
a'r bedd gwag –
ond er iddi gymryd amser i ni dderbyn
a mwy fyth i ddeall,
gwyddom yn wahanol,
sef bod rhywbeth arbennig yn y gwynt y bore hwnnw,
yn fwy arbennig ac arallfydol nag y gall geiriau ei ddisgrifio.

Beth amdanoch chi?
A ddysgoch chi'r gwirionedd?
A ydych chi wedi amgyffred yr hyn a wnaeth Duw?

Roedd yr haul yn codi wrth i ni nesáu at y bedd,
gwawr diwrnod newydd
a gwawr byd newydd!

Gweddi:

Tyrd, O Arglwydd, yn nerth dy atgyfodiad,
i'n bywydau,
i'n byd,
a boed i'th oleuni lewyrchu,
dy ras drawsnewid,
a'th gariad adnewyddu.
Lle mae pobl yn rhodio mewn tywyllwch –
anobaith,
dioddefaint,
ofn,
drygioni –
tyrd â'th wawr newydd
a'th ddechrau newydd:
tyrd â'th haul i'n calonnau.
Amen.

Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies